# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PEMRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 11
EBRILL 2008


Y mae'r hanesion hynny am gyfeillion a disgyblion yr Iesu yn dod wyneb yn wyneb â'r Crist atgyfodedig ymysg y rhai hyfrytaf yn y Testament Newydd. Cofiwn am ddagrau galar Mair yn troi yn ddagrau o lawenydd wrth i'r Iesu ei chyfarch yn yr ardd a phwy na all rannu yn ei gorfoledd wrth iddi ddatgan wrth y disgyblion, "Yr wyf wedi gweld yr Arglwydd".Cofiwn hefyd am amheuon Thomas yn troi i fod yn gyffes ffydd wrth iddo ddod wyneb yn wyneb â'r Iesu yn yr oruwchystafell ac am siom a chywilydd Pedr yn troi yn ymrwymiad newydd i'w Feistr ar lan môr Galilea. Cofiwn am y ddau a oedd yn isel eu hysbryd yn teithio i Emaus wedi eu llwyr dadrithio gan y croeshoeliad. Ond yna, wrth ddod wyneb yn wyneb â'r Crist byw, yn cael eu bywiocáu gan y profiad ac o ganlyniad yn rhuthro yn ôl i Jerwsalem i rannu eu stori ag eraill. Ie, er gwaethaf erchylltra croes Calfaria a chreulondeb dyn, nid oedd Duw wedi troi cefn ar ei gyfeillion a thrwy ymddangosiadau'r Crist atgyfodedig, dengys ei fod yr un mor ffyddlon ag y bu erioed tuag at ei bobl. Wrth gyfarch ei gyfeillion a'i ddisgyblion nid geiriau o ddicter oedd gan yr Arglwydd, ond geiriau o dynerwch, trugaredd, anogaeth, cariad a thangnefedd ac onid yw'r geiriau hyn yn rhai sydd yn werth eu clywed ac yn wir sydd angen eu clywed arnom heddiw?

Ond y mae yna lawer yn ein byd ac yn ein cymdeithas heddiw sydd yn methu gweld na chlywed y Crist atgyfodedig a hynny am eu bod wedi eu dallu gan ddagrau, ofn, tywyllwch ac anobaith. Gwyddom hefyd fod yna rai sydd yn ceisio rhwystro eraill rhag ei weld a hynny drwy ddifrodi capeli ac eglwysi fel a ddigwyddodd dros gyfnod y Pasg mewn rhai mannau yng Nghymru. Yn ogystal, mae 'na rai nad oes ganddynt mo'r awydd na'r amser i drafferthu gweld na gwrando ar yr hyn sydd gan Grist i'w ddweud wrthym. Ond diolch am y cnewyllyn o bobl sydd yn dal i'w geisio, a hynny am eu bod yn credu fod ganddo ffordd amgenach i'w gynnig inni sydd yn byw mewn byd rhanedig a drylliedig. Mewn cymdeithas lle clywn byth a beunydd am ryfel, trais, anghyfiawnderau, dicter a malais, diolchwn fod gennym Waredwr sydd yn ein hannog i fyw yn unol â'i ffordd Ef ac y sydd yn parhau'n ffyddlon inni er gwaethaf ein diffyg hymrwymiad iddo Ef. Gofynnwn iddo sychu dagrau'r anghenus, goleuo'r ffordd i'r rhai sydd mewn tywyllwch, rhoi o'i obaith i'r rhai hynny sydd wedi anobeithio a phlannu'r awydd yng nghalonnau'r gweddill i ddod wyneb yn wyneb â'r Duw byw.

Bydded inni felly ei weld o'r newydd yn ei wedd atgyfodedig a chlywed ei eiriau yn cynhesu'n calonnau er mwyn i ninnau fel y disgyblion gynt, rannu'r newyddion da amdano. Dyma rywbeth yn wir sydd yn werth ei glywed.

Pob bendith
Judith


47 Glanceulan, Penrhyn-coch. SY23 3HF
Rhif Ffôn : 01970 820920 : E-bost : morris@coedlas.plus.com

**CALENDR MIS EBRILL 2008**

| | | |
|---|---|---|
| 6 Ebrill<br>2.30yp | Oedfa Gymun<br>Gweinidog | Cyhoeddwr y Mis : Eirian Reynolds<br><br>“Agorwyd eu llygaid hwy, ac adnabuasant ef.” |
| 13 Ebrill<br>10.30yb | Oedfa Deuluol<br>Paned i Ddilyn | “Ac aeth Mair Magdalen i gyhoeddi’r newydd i’r disgyblion.” |
| 20 Ebrill<br>10.30yb<br>2.30yp | <br><br>Clwb Sul<br>Oedfa Bregeth | “Daeth Iesu atynt, a chymerodd y bara a’i roi iddynt, a’r pysgod yr un modd.” |
| 27 Ebrill<br>10.30yb | <br>Clwb Sul ac Oedfa Bregeth | “Portha fy ŵyn.” |

**I’CH DYDDIADUR**

7 Ebrill : Cinio Cymorth Cristnogol : Canolfan Fethodistaidd San Paul : 12.00-1.30yp
9 Ebrill :Os Mêts : Capel y Garn am 7yh
9 Ebrill : Rihyrsal y Gymanfa : Bethel, Talybont am 7yh
16 Ebrill : Rihyrsal y Gymanfa : Bethel, Aberystwyth am 7yh
18 Ebrill : Gweithgor Ceredigion : Horeb, Penrhyn-coch am 2yp. Disgwylir y Parchedig Eirian Wyn Lewis i annerch am ei daith i Batagonia.
23 Ebrill : Rihyrsal y Gymanfa : Horeb, Penrhyn-coch am 7yh
30 Ebrill : Rihyrsal y Gymanfa : Y Garn am 7yh
7 Mai : Cyfarfodydd Blynyddol Adran Genhadol y Chwiorydd : Penuel, Bangor. Cyfarfodydd am 2.00 a 5.30. Croeso cynnes.
7 Mai : Rihyrsal y Gymanfa : Y Morfa am 7yh
20-21 Mai: Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, Penuel, Caerfyrddin
20 Gorffennaf : Fe fydd ein cenhades gyswllt yn ymweld â Bethel a Horeb ar y Sul hwn.

**LLOFFION**

- Dymuniadau gorau i Miss Megan Thomas a Mrs Menna Jenkins a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.
- Dymunwn yn dda i Ken a Kathleen Vincent, Awelfan, Cefn-llwyn. Byddant yn dathlu eu Priodas Aur ar 24 Ebrill.
- Cydymdeimlwn â

  Dr Huw Martin Thomas, ar golli ewythr yn ddiweddar.
  Ceris, ar golli modryb dros y Pasg.

- Hoffai Cerys Humphreys ddiolch i bawb a gefnogodd y cyngerdd ym Methel ym mis Mawrth. Cawsom noson hyfryd o adloniant gan Gôr ABC o dan arweiniad Angharad Fychan, ynghyd â Crwys Evans ac Esther Ifan. Codwyd £425 tuag at waith Mencap. Diolch yn fawr.

**ETHOL DIACONIAID**

Byddwn yn ethol diaconiaid yn yr oedfa gymun ar y Sul cyntaf ym mis Mai. Mawr hyderwn y bydd yna gefnogaeth gref i’r oedfa hon.

**APÊL AM GYMORTH**

Fe fydd angen darparu paned a chacen ar ol gweithgor Ceredigion a gynhelir yn Horeb ar 18 Ebrill. A oes yna rywrai yn barod i gynorthwyo? Cysylltwch â Judith. Diolch yn fawr.